

Pennaeth / Headteacher: Mr D Owen
Llangurig Road, Llanidloes, Powys, SY18 6EX
Ffôn / Tel: 01686 412289
Ffacs / Fax: 01686 413812
EBost / Email: office@llanidloes-hs.powys.sch.uk
Gwefan / Website: www.llanidloeshighschool.co.uk



9^{fed} Gorffennaf 2021

Diwrnod Pontio Ysgol Uwchradd Llanidloes

Annwyl Riant/Ofalwr,

Gobeithiwn bod eich plentyn yn edrych ymlaen yn fawr at ymuno ag Ysgol Uwchradd Llanidloes ym mis Medi.

Mae'r llythyr hwn yn rhoi diweddariad byr ar sut rydym ni'n paratoi ar gyfer cyfnod pontio eich plentyn yn Ysgol Uwchradd Llanidloes. Hoffem i'r cam arwyddocaol hwn fod mor llyfn a llawn cyffro â phosibl.

Efallai yr hoffech wybod bod eich plentyn yn ymuno ag un o'r carfanau blwyddyn mwyaf ers i'r Awdurdod Lleol ddechrau codi cost ar gyfer trafndiaeth oddi allan i ddalgylch yr ysgol. Rydym wrth ein boddau bydd y garfan Cymraeg Iaith Gyntaf fwyaf yn hanes yr ysgol yn dechrau yma ym mis Medi. Rydym mor ddiolchgar ein bod ni'n cael ein hadnabod fel un o'r ysgolion sydd yn perfformio orau ac un o'r ysgolion hapusaf yng Nghymru. Oherwydd hyn, rydym ni'n atynnu disgyblion o bob cwr o'r ardal.

Pryd fydd fy mhentyn yn dechrau yn Ysgol Uwchradd Llanidloes?

Ar hyn o bryd, rydym ni'n edrych ymlaen at groesawu eich plentyn i'r ysgol ar ddydd Iau, 2il Medi. Yn y cyfamser, mawr obeithiwn bydd cyffro eich plentyn yn parhau i dyfu wrth iddynt edrych ymlaen at symud!

A fydd diwrnodau pontio?

Rydym ni wrth ein boddau i ddatgan bod canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymraeg yn caniatáu i ni gynnal diwrnodau pontio yn yr haf.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Supported by
The National Lottery[®]
through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Rydym yn cynnal diwrnodau pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 o ysgolion gwahanol ar 25ain Mehefin, 2il Gorffennaf a 9fed Gorffennaf. Ein nod yw rhoi cyflwyniad i fywyd yn yr ysgol uwchradd trwy weithgareddau a sesiynau blasu hwyl, taith o amgylch safle'r ysgol (gan gynnwys ein maes 3G newydd!) a rhoi amser i'r disgyblion dreulio amser efo'u hathrawon ac efo'u ffrindiau newydd. Byddwn ni'n ceisio rhoi blas iddynt fel eu bod yn edrych ymlaen yn fawr at ddechrau'r ysgol uwchradd ac yn dyheu am ddiwedd y gwyliau haf... Wel, gobeithio!

Edrychwch ar y tabl isod ar gyfer diwrnod pontio eich plentyn:

Dydd	Dydd Gwener 25ain Mehefin Diwrnod Cyfrwng Cymraeg	Dydd Gwener 2il Gorffennaf	Dydd Gwener 9fed Gorffennaf
Ysgolion	Dafydd Llwyd	Rhaeadr CS yn unig	YG Llanidloes
	Carno	Hafren	Llandinam
	Llanbryn-mair	Penygloddfa	Dyffryn Trannon CS yn unig
	Rhaeadr CC yn unig	Maesyrhandir	
	Dyffryn Trannon CC yn unig	Caersws	

CC = Disgyblion cyfrwng Cymraeg

CS = Disgyblion cyfrwng Saesneg

Yn ôl cyngor Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i ddisgyblion aros yn eu swigod ysgolion tra ar safle'r ysgol. Bydd angen iddynt hefyd ddilyn y rheolau coronafeirws arferol. Oherwydd hyn, gwnewch yn siwr bod eich plentyn yn dod â mwgwd ar gyfer y diwrnod. Os oes rheswm feddygol gan eich plentyn dros beidio â gwisgo mwgwd, rhowch wybod i ni o flaen llaw, os gwelwch yn dda.

Trafnidiaeth

Ni fydd disgyblion yn cael eu codi na'u gollwng ger eu hysgol gynradd.

Os ydy disgyblion yn byw yn agos at yr ysgol, mae croeso iddynt gerdded.

Bydd y disgyblion hynny fydd yn teithio ar y bws ym mis Medi yn defnyddio'r un arhosfan fws ar y diwrnod pontio. Gobeithiwn y bydd hyn yn hwyluso'r newid mewn trefniadau teithio i'r disgyblion.

Mae'n rhaid i ddisgyblion wisgo mwgwd ar y bws, oni bai bod ganddynt reswm feddygol dros beidio â gwneud.

Edrychwch, os gwelwch yn dda, ar yr amseroedd awgrymedig isod.

Fel arall, mae croeso i chi ddod â'ch mab/ merch i'r ysgol yn eich cerbyd eich hunan.

Ar ddiwedd y dydd, bydd y disgyblion yn dychwelyd adref yn yr un ffordd ag y daethon nhw i'r ysgol.

Cinio

Bydd angen i'ch plentyn ddod â byrbrydau, cinio a diodydd.

Cyrraedd

Bydd rhywun yn cwrdd â'r disgyblion ger arhosfan fysiau yr ysgol ac yn eu hebrwng i neuadd yr ysgol. Bydd croeso cynnes iddyn nhw yno cyn eu bod yn dechrau mynychu gwersi.

Cysylltu â'r ysgol?

Rydym wedi ceisio cynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y llythyr hwn, ond os oes cwestiynau ychwanegol, gallwch gysylltu â ni drwy ffonio 01686 412289 neu e-bostio swyddfa'r ysgol: office@llanidloes-hs.powys.sch.uk Os yn bosibl, ysgrifennwch 'Blwyddyn 6' ac enw eich plentyn yn y gwagle 'pwnc' fel bod yr e-bost yn dod yn uniongyrchol ataf i.

Yn y cyfamser, rydym yn edrych ymlaen at groesawu eich plentyn i Ysgol Uwchradd Llanidloes!

Cofion,

B. Harrison

Cydlynnydd Pontio
Pennaeth Bl. 7